

Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych

South Denbighshire Community Partnership

DISGRIFIAD SWYDD:

Swydd: Swyddog Datblygu ac Ymgysylltu Cymunedol

Lleolir y swydd yn Hwb Pengwern, Llangollen, yn bennaf, gan weithio ar draws de Sir Ddinbych i gynnal darpariaeth allgymorth.

Hwb Pengwern. Mae Canolfan Gymuned Llangollen, wedi'i lleoli yn Hwb Pengwern, yn eiddo i ac yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ddinbych – Adran Tai Cymunedol. Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych sy'n darparu'r swyddogaeth Datblygu Cymunedol yn yr Hwb dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae'r Hwb yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau i ystod eang o ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Pwrpas y swydd: Bydd y Swyddog Datblygu Cymunedol, ar y cyd â'r Rheolwr Datblygu ac Ymgysylltu Cymunedol, yn gweithio mewn partneriaeth â sefyliadau statudol a mudiadau gwirfoddol lleol i ddatblygu a chynnal prosiectau a gweithredu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n gwella ansawdd bywyd i bobl leol ac yn creu cymunedau cryfach.

Bydd y Swyddog Datblygu Cymunedol yn gyfrifol am drefnu'r adnoddau priodol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi fod yn ffit yn gorfforol, gyda'r gallu i blygu, ymestyn, gwithio, codi, cario a phenlinio fel rhan o'ch swydd.

Profiad blaenorol: : o leiaf 3 blynedd o brofiad yn gweithio mewn rôl cymorth cymunedol.

Rheolwr llinell: Y Rheolwr Datblygu ac Ymgysylltu Cymunedol

Cysylltiadau allweddol: Swyddog Cymorth Cymunedol – Tai Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych
Kim-Inspire
Sir Ddinbych yn Gweithio
Grŵp Cynefin
Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych

Unigolion sy'n atebol yn uniongyrchol: Gwirfoddolwyr

Oriau: 35 awr (gyda'r gallu i fod yn hyblyg, yn cynnwys rhai nosweithiau a phenwythnosau)
Dydd Llun i Dydd Gwener, 9.00am – 4.30pm

Cyflog: SP5 – SCP 12 – 17 (yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad)
£24,496.00 - £26,845.00 y flwyddyn
Cyfraniad 3% i Gynllun Pensiwn

Hawl i wyliau blynyddol: 20 diwrnod y flwyddyn, ynghyd ag wyth diwrnod gwyliau cyhoeddus.

Cyfnod prawf: 3 mis

Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych

South Denbighshire Community Partnership

Cyfnod hysbysiad ymddiswyddo: Un mis calendr

Trwydded yrru: mae'r swydd yn galw am ddefnyddio car a rhoir ad-daliad am y milltiroedd a deithir.

Tystysgrif Gwasnaeth Datgelu a Gwahardd: Gan fod y swydd hon yn cynnwys gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed mae'n angenrheidiol i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar gliriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahadd a Datganiad Datgymhwyso dan y Ddeddf Gofal Plant.

Prif Gyfrifoldebau

- Sefydlu a chynnal ystod eang o weithgareddau a phrosiectau cymunedol yn y ganolfan ac yn y gymuned, dan gyfarwyddyd y Rheolwr Datblygu ac Ymgysylltu Cymunedol, mewn ymateb i anghenion y gymuned.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i a hyrwyddo'r gweithgareddau a'r gwasanaethau cymunedol yng nghymunedau de Sir Ddinbych.
- Cynnal cofnodion monitro'r holl weithgareddau ymgysylltu cymunedol i ddiwallu anghenion monitro ac adrodd cyrff cyllido.
- Rhoi cymorth a hyfforddiant i wirfoddolwyr lleol i'w galluogi i gymryd rhan weithredol yn natblygiad y Ganolfan Gymuned.
- Datblygu perthynas waith effeithiol gyda'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid.
- Cydweithredu â staff yr Awdurdod Lleol, sefydliadau statudol a mudiadau gwirfoddol eraill i gyflawni deilliannau ac allbynnau'r prosiect.
- Cyflawni holl dasgau gweinyddol y prosiect, yn cynnwys diweddarau newyddion y prosiect yn rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol y prosiect / Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych.
- Sicrhau ymgysylltu ag ymgynghori â holl ddefnyddwyr gwasanaethau Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych yn rheolaidd i sicrhau casglu adborth i alluogi gwerthuso a chyflwyno unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan y Rheolwr Datblygu ac Ymgysylltu Cymunedol.
- Mynd i hyfforddiant a chyfarfodydd perthnasol (gallai'r rhai fod y tu allan i oriau gwaith arferol).
- Trin holl ddefnyddwyr y ganolfan, staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'r Bwrdd gyda pharch cydradd a chyflawni'r holl ddyletswyddau yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal y Bartneriaeth.
- Ymwneud â chleientiaid mewn modd cyfeillgar, cwrtais, prydlon a phriodol, gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu rhagorol a sicrhau rhoi gwasanaeth i gwsmeriaid o'r ansawdd gorau bob amser.
- Defnyddio'r offer Technoleg Gwybodaeth a ddarperir, yn briodol ac yn effeithiol.
- Cadw at yr holl ofynion iechyd a diogelwch, gan gymryd gofal rhesymol i beidio â gwneud unrhyw beth a allai eich rhoi chi neu eraill mewn perygl.
- Hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant, parch a thegwch a rheoli amrywiaeth ym mhob agwedd o gynllunio a darparu'r gwasanaeth, drwy fod yn weithredol yn rhoi ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith.
- Hyrwyddo gwaith Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych.
- Dyletswyddau eraill sy'n codi'n achlysurol, sy'n dod o dan bwrpas y swydd.

Gofynnir am ddau eirida a chynhelir gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dilyn cyfweiliad llwyddiannus.

Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych

South Denbighshire Community Partnership

Cyfle Cyfartal

Mae Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych yn recriwtio staff a gwirfoddolwyr ar sail eu sgiliau, eu profiad, eu natur a'u gallu, heb ystyried hil, cenedligrwydd, rhywedd, oedran, rhywioldeb, anabledd na chrefydd.

MANYLEB YR UNIGOLYN

ADDYSG / CYMWYSTERAU	Hanfodol	Dymunol
<ul style="list-style-type: none"> Lefel addysg gyffredinol dda 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Cymhwyster Lefel 2 sy'n berthnasol i'r maes 	✓	
PROFIAD		
<ul style="list-style-type: none"> Profiad o weithio ag oedolion sy'n agored i niwed 		✓
<ul style="list-style-type: none"> Profiad o weithio mewn amgylchedd cymunedol 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Profiad o ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadur cyffredin 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Profiad o ymgynghori, monitro a gwerthuso gweithgareddau 		✓
GWYBODAETH		
<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth am rôl y sector gwirfoddol 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth am arferion gorau Diogelu 	✓	
SGILIAU A GALLUOEDD		
<ul style="list-style-type: none"> Trwydded yrru lawn a chludiant eu hunain 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Medru gweithio ar ei liwt ei hun ac fel aelod o dîm 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Medru dangos agwedd cadarnhaol, ac yn barod i fynd y filltir ychwanegol 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Medru dangos sgiliau trefnu rhagorol 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Medru cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig 		✓
PERSONOL		
<ul style="list-style-type: none"> Gwydnwch personol a phroffesiynol 		
<ul style="list-style-type: none"> 		
<ul style="list-style-type: none"> Derbyn ac ymrwymo i ddatganiad cenhadaeth, nodau, gwerthoedd a pholisïau Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Dangos empathi a thosturi 	✓	
<ul style="list-style-type: none"> Brwdfrydig ac yn llawn hunan-gymhelliant 	✓	